OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1814 (Cy.144) (C.75)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2005

*Wedi'i wneud - - 5 Gorffennaf 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 270(4)(a), (5)(c), (5)(f) a (7) o Ddeddf Tai 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr “Deddf 2004” (“*the 2004 Act*”) yw Deddf Tai 2004; ac

ystyr “y dyddiad cychwyn” (“*the commencement date*”) yw 14 Gorffennaf 2005.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar y dyddiad cychwyn**

**2.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2004 yn dod i rym ar y dyddiad cychwyn —

(a) adran 191;

(b) adran 227;

(c) adran 228;

(ch) adran 265(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau o Atodlen 15 i Ddeddf 2004 a bennir ym mharagraff (dd) isod;

(d) Atodlen 12; ac

(dd) yn Atodlen 15 —

(i) paragraff 1;

(ii) paragraff 7(1), (2), (3)(a), (3)(c), (4)(a) a 5;

(iii) paragraff 35;

(iv) paragraff 37(1), (2)(a), (2)(b) a (3);

(v) paragraff 45(1), (2)(b), (2)(c), (2)(d) a (3); a

(vi) paragraff 46

(**1**) 2004 p.34.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
5 Gorffennaf 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â ddarpariaethau amrywiol Deddf Tai 2004 ("Deddf 2004") i rym o ran Cymru.

Daw darpariaethau Deddf 2004 a restrir o dan erthygl 2 i rym ar 14 Gorffennaf 2005. Maent yn darparu ar gyfer y canlynol:

(a) seiliau newydd dros wrthod cydsynio ag aseinio tenantiaeth ddiogel (mae adran 191 o Ddeddf 2004 yn mewnosod Sail 2A newydd yn Atodlen 3 o Ddeddf Tai 1985);

(b) dileu'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau tai lleol o dan adran 167 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i anfon adroddiadau blynyddol at denantiaid (adran 227 o Ddeddf 2004); ac

(c) creu swydd Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru (mae adran 228 o Ddeddf 2004 yn mewnosod adrannau 51A, 51B a 51C yn Neddf Tai 1996 ac mae Atodlen 12 o Ddeddf 2004 yn mewnosod Atodlen 2A newydd yn y ddeddf 1996 honno).

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dod â newidiadau canlyniadol i rym (mae erthygl 2(dd) yn cyfeirio at y rhain).